CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - MAWRTH 2016

DYDDIAD	Nos Fercher, 16 Mawrth 2016
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhosgadfan**

a) **Croeso**
Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Neal Williams. Yn bresennol roedd Jason Hunt, Gwilym Ll Williams, Michelle Williams, Gwilym V Thomas, Cyng Aeron M Jones, Les Williams, Tom Ellis. Hefyd yn bresennol roedd Caryl E Lewis (Clerc) a Dylan Herbert, Energy Networks

b) **Ymddiheuriadau**
Elin Evans, Elwyn Jones, Rhys Owen, Nerys Evans,

c) **Datgan Buddiant**
Dim i'w nodi

d) **Cadarnhau cofnodion 17 Chwefror 2016**
Derbyniwyd fel cofnod cywir.

e) **Materion i'w trafod:**

a) Dylan Herbert, Pennaeth Gofal Cwsmer Energy Networks
Diolchwyd i Dylan am fynychu. Roedd ei ymweliad yn sgil trafferthion gyda'r cyflenwad trydan o amgylch ardal Llanwnda. Cafwyd eglurhad am beth oedd wedi achosi'r trafferthion a nodwyd fod y problemau wedi eu datrys rwan. Tua 120 o gwsmeriaid wedi cael toriad trydan, llythyrau ymddiheuro wedi eu gyrru allan a wedi cynnig pecynnau gaeaf i bobl hyn (ffon analogue phone, pethau i gnesu dwylo ayb). Hefyd wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i weld pwy ddylai fod ar y rhestr blaenoriaeth o ran cael trydan yn ol. Os trydan yn mynd ffwrdd mae gan y cwmni 9 awr i geisio datrys. Os yn gweld fod yn mynd dros y 9 awr, maent yn dod a generators i mewn. AMJ yn canmol y gwasanaeth, wedi gofalu ar ol bobl hyn pan roedd y problemau. Rhoddwyd 80 or pecynnau gaeaf allan.

Cae chwarae saron – Uwchben y cae chwarae mae gwifrau 11k vault, mae hyn yn beryglus, enwedig pan mae gemau peldroed. Mae rhieni wedi gofyn os oes modd symud y gwifrenau. Arian mewn lle i wneud y gwaith ond mae problemau gyda cael caniatad y tirfeddianwr ar hyn o bryd. AMJ i gysylltu gyda'r tirfeddianwr eto, yna Cyngor Cymuned i lythyru os oes angen.

Cynllun beipass Bontnewydd – bydd toriad i trydan yn ystod y gwaith, gwaith paratoi a chynllunio yn digwydd ar hyn o bryd.

b) Cais nawdd Cae Chwarae Rhosgadfan
Nodwyd fod y cais wedi ei ohirio nes derbyn rhagor o fanylion am gostau yswiriant y cae chwarae. Nododd y Clerc y byddai'n costio oddeutu £320 y fflwyddyn yn ychwanegol i'w roi ar yswiriant y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd ar roi cynnig grant o £1000 tuag at y cae chwarae a hefyd ariannu'r yswiriant blynyddol. Bydd angen derbyn cadarnhad o sut defnyddir yr arian a beth fydd yn digwydd os nad fydd bosib codi gweddill yr arian tuag at y roundabout.

c) Tir ger Sain
Diweddariad gan yr Uned Gorfodaeth yn nodi fod dim newydd i'w adrodd.

d) Materion Priffyrdd mis diwethaf
Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn mewn amser i'r cyfarfod diwethaf gan yr Adran Briffyrdd, nodwyd fod yr ymatebion isod wedi eu derbyn gan Meirion Williams erbyn hyn:
"1, Cylchfan Ffingar/Glanrhyd - os yw arwydd neu faner ar eiddo preifat e.e. wal neu ffens, ni allwn wneud llawer amdanynt (heblaw wrth gwrs ei fod yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd). Mae'n fater rhwng y sawl sydd wedi'i godi a'r

	perchennog. Os yw'r arwydd neu faner ar dir neu eiddo'r Cyngor, yna y byddwn yn gallu ei dynnu a chodi ar bwy bynnag am wneud hynny. *2, Ty'n Rhos* – mae marciau Araf/Slow weddol amlwg ar y ffordd yn barod (gweler y llun) yn ogystal a chevrons ar y gornel. *3, Wal rhwng mynedfa Tractors Menai a Fferm Rhosgawen* - rwyf wedi gofyn i Uned Strwythurau'r Cyngor edrych ar y sefyllfa *4, Cyflwr cyffredinol y lon* - fel yr ydych yn ymwybodol mae'n siŵr, mae £850,000 yn cael ei dynnu oddi ar ein cyllideb cynnal ffyrdd o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen. Mae hyn yn ychwanegol i doriadau ac arbedion effeithlonrwydd eraill sydd hefyd wedi neu am gael eu tynnu oddi wrthym. Yn anffodus felly, ni fyddem mewn sefyllfa i allu ymgymryd â llawer o weithiau trwsio parhaol dros y 2-3 mlynedd nesaf. O ganlyniad, fe fydd rhaid i ni ymgymryd â gweithiau patchio dros dro ar y mwyafrif o'n ffyrdd nes y bydd ein sefyllfa ariannol yn gwella. *5, Tai Uwch Menai* – mae'r pant o ganlyniad i hen waith gan BT. Nid yw mor ddrwg ei fod yn cyrraedd lefel ymyrraeth i ddiffyg Categori 1. Felly, fe wnawn fonitro ei gyflwr rhag ofn iddo waethygu. 6, Arwydd Golau, Ffrwd Cae Du - Nid yr Adran hon sy'n gyfrifol am y golau. O ganlyniad, allwch chi anfon unrhyw sylwadau at Mr Dylan Wynn Jones, Rheolwr Traffig a Phrosiectau, yn y Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth ym Mhencadlys **e) Glynllifon, newid enw** Gan fod y mater hwn wedi tawelu, penderfynwyd nad oes angen gweithredu ar hyn o bryd. **f) Angen glanhau lon am bont Cae'r Moel, lot o ddail yno.** Clerc wedi adrodd i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, aros am ymateb. **g) Dwr ar y llon rhwng Llecyn a Pen Goeslon Rhos Isaf, wrth y bocs GPO.** Clerc wedi adrodd i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, aros am ymateb. **h) Angen arwydd ar y bin brown newydd yn mynwent Cefnfaes, peidio rhoi dim byd ond blodau / gwastraff gwyrdd yn y bin brown.** Clerc wedi gosod arwydd ar y bin.
	Derbyn Adroddiadau Llwybr Bryngwyn – 5 arwydd 'ci ar dennyn' yn barod, Wyn yn barod i'w gosod.
7.	**Is-bwyllgorau** a) Is-Bwyllgor Mynwent Nododd y Clerc fod yr Is-Bwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar a wedi addasu y ffioedd tu allan i'r gymuned rhywfaint. Hefyd penderfynwyd fod angen newid y rheolau i nodi 'dim cwn' a bydd angen i'r clerc archebu arwydd i osod ar giat y fynwent.
8.	**Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)** **<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Mawrth 2016</u>**

	1. Cyfrif Cadw Balans a ddygwyd ymlaen: 9,334.43 + Llog 2.31 **Balans ar derfyn busnes 14 Mawrth 2016 9,336.74** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **8,510.58** - 101337 Cyflog Clerc Chwef 424.40 - 101338 Swyddfa'r Post PAYE Chwef 95.60 - 101339 Petty Cash 300.00 - 101343 Cyngor ar Bopeth 100.00 - 101344 Cylch Meithrin Llanwnda 600.00 - 101346 Ysgol Rhosgadfan 1,000.00 - 101341 Canolfan Llanwnda 20.00 - 101350 Canolfan Bro Llanwnda 250.00 - 101349 Dawns i Bawb 150.00 - 101340 Zurich 1,437.46 **Balans ar derfyn busnes 14 Mawrth 2016: 4,133.12** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 16 Mawrth 2016:** Cyflog Clerc Mawrth 424.40 Cyllid y Wlad Mawrth 95.60 Lleu 15.00 Designer Signs 88.00 Antur Nantlle 108.00 **Cyfanswm 731.00**
9.	**Materion Cynllunio** Dim i'w nodi.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon – Copi wedi ei dderbyn Cyngor Gwynedd – llythyr yn nodi fod cost y biniau halen wedi gostwng eto. Cyngor Cymuned yn parhau yn anfodlon i gymryd cyfrifoldeb drostynt. Dim ond carfan fechan o'r gymuned byddai'n elwa a mae pryderon mai'r Cyngor Cymuned byddai'n gyfrifol pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **a) MW –** Meddygfa Rhostryfan – angen copi o'r amserlen i roi fyny yn hysbysfyrddau y pentrefi. Angen gofyn beth ydy'r cynlluniau ar ol uno, a fydd cleifion bron seiont yn cael dod i meddygfa Rhostryfan? **b) GVT –** 'Speed Humps' – Rhosgadfan, ochrau wedi gwisgo. Hefyd, draw am Bodfan wedi agor draen a rhoi tarmac, tarmac wedi gwisgo i gyd ac angen ei ail-wneud. **c) GVT -** Arwydd cyflymder ger Bodfan, ddim yn gweithio. Pwy sydd yn gyfrifol am gynnal? **d) NW –** Hysbysfwrdd wedi dirwio, angen i Wyn gael golwg arno. **Dyddiad: 20 Ebrill 2016** **Lleoliad: Ysgol Rhostryfan**